

# Ymweld â Safleoedd Hanesyddol Cymru ar hyd Ffordd Cymru

Canllaw defnyddiol ar gyfer cynllunio  
teithiau i archwilio treftadaeth Cymru







# Ble i ymweld...



## Ffordd Cambria The Cambrian Way

- 1 Abaty Ystrad Fflur
- 2 Canolfan Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon
- 3 Castell Caerffili
- 4 Castell Coch
- 5 Castell Rhaglan
- 6 Abaty Tyndyrn
- 7 Castell Cas-gwent

## Ffordd yr Arfordir The Coastal Way

- 1 Castell Cricieth
- 2 Castell Harlech
- 3 Castell Cilgerran
- 4 Llys yr Esgob Tyddewi


## Ffordd y Gogledd The North Wales Way

- 1 Abaty Glyn y Groes
- 2 Castell Dinbych a Muriau'r Dref
- 3 Castell Rhuddlan
- 4 Castell Conwy
- 5 Plas Mawr
- 6 Castell Caernarfon
- 7 Castell Biwmares

Ewch i [cadw.llyw.cymru](http://cadw.llyw.cymru) am fwy o wybodaeth. I gael rhagor o wybodaeth am Ffordd Cymru, ewch i [fforddcymru.com](http://fforddcymru.com)

Mae Ffordd Cymru yn deulu o dri llwybr cenedlaethol sy'n eich arwain ar hyd yr arfordir, drwy wlad o gestyll ac ar draws y berfeddwlad fynyddig. Fe'u croesir gan ddolenni a chysylltiadau fel y gallwch greu eich teithiau pwrpasol eich hun yng Nghymru.

Mae gennym yma yng Nghymru rai o'r cestyll gorau yn y byd, a rhai o'r harddaf hefyd. Mae gennym abatai, eglwysi a chapeli a rhai o'r henebion mwyaf atmosfferig y bu ymwelwyr yn chwilio amdanyn nhw ers miloedd o flynyddoedd. Mae gennym henebion sy'n ein hatgoffa o dreftadaeth falch Cymru fel un o'r gwledydd diwydiannol cyntaf yn y byd, yn ogystal â safleoedd sy'n adrodd hanes tywysogion Cymru yn yr Oesoedd Canol. Edrychw'n ymlaen at eich gweld yn fuan...



Ewch i dudalennau Diwydiant Teithio Cadw i drefnu eich ymweliad â'n tîm: [cadw.llyw.cymru/ymwelð/lleoedd-i-ymwelð/y-diwydiant-teithio](http://cadw.llyw.cymru/ymwelð/lleoedd-i-ymwelð/y-diwydiant-teithio). Mae cyfraddau masnach gostyngol ar gael i holl aelodau ein Cynllun Gweithredwyr Teithiau Cadw. Cofrestrwch ar-lein yma: Cofrestru ar gyfer [Cynllun Gweithredwyr Teithiau Cadw](#).

# Ffordd Cambria

## Safleoedd Cadw i ymweld â nhw



Mae Ffordd Cambria yn naderddu ar hyd asgwrn cefn Cymru am 185 milltir/300km o Landudno yn y gogledd i Gaerdydd yn y de. Mae'n dolen nu ðrwy Barciau Cenedlaethol Eryri a Bannau Brycheiniog gyda mannau gwyrdd mawr Mynyddoedd Cambria yn y canol.



### Abaty Ystrað Fflur

Saif abaty Ystrað Fflur neu Strata Florida — y Lladin am 'Fro'r Bloðau' — ar ðdolydd ffrwythlon wrth ymyl glannau afon Teifi oðdi ar 1201. Fe'i sefydlwyð gan fynachod Sistersaidð mentyll gwynion yn rhan o fudiad a aeth fel ymchwydd ledled gorllewin Ewrop yn yr Oesoedd Canol cynnar. Cyn hir, ðyma oedd yr eglwys enwocaf yng Nghymru ar ôl Tyðdewi — man pererindod a chanolfan ðiwylliant Cymru. Mae rhai o'r teils addurnedig anhygoel a fuasai'n gorchuddio lloriau'r eglwys yn y golwg o hyd yn ogystal â man gorffwys olaf cenedlaethau o ðywysogion canoloesol Cymru. Dywedir bod y bardd mawr, Dafydd ap Gwilym, wedi'i gladdu ðan goeden ywen yn y fynwent. Does ðim syndod i'r lle gael ei alw'n 'Abaty Westminster Cymru'.



### Canolfan Treftadaeth y Byð Blaenafon

Mae tirwedd Blaenafon yn Safle Treftadaeth y Byð, ac mae'n rhan o fan geni'r Chwylðro Diwydiannol lle'r oedd glo'n cael ei gloddio a haearn yn cael ei ffurfio. Gallwch weld olion ði-rif yno o hyd sy'n eich galluogi i olrhain ðatblygiad y Chwylðro Diwydiannol. Mae Gwaith Haearn Blaenafon, gan gynnwys y tŷ cast, y tŵr balans, y siop fwyð a'r bythynnod gwreiddiol yn ðal i fod yno heddiw i chi eu harchwilio a phrofi bywyð yn yr 1800au.



### Castell Caerffili

Yn 1268, adeiladodd ðe Clare y castell mwyaf yng Nghymru — a hwnnw'n ail yn unig i Windsor ym Mhryðain oll. Cyfunwyð muriau, tyrau a phorthðai enfawr ag amððiffynfeydd ðwr helaeth i orchuddio 30 erw i gyd. Pan fu farw Llywelyn, trawsnewidiwyð y gaer flaenaf hon yn gartref gwych a chanðdo barc hela a llyn gogleddol. Fe'i trosglwyddwyð i ðdwylo ffefryn creulon a barus Eðwarð II, Hugh Despenser, a ailwampiodd y neuadð fawr mewn modð addurnedig. Erbyn hynny, rhaid bod Caerffili yn ymðangos fel rhyw gastell chwedlonol yn arnofio mewn llyn hudol. Cryfhawyð yr effaith hon yn rhyfedð gan bowðwr gwn y Rhyfel Cartref a adawodð tŵr y ðe-ðdwyrain ar ongl ansicr. A ðweud y gwir, mae'n siŵr mai Tŵr Cam Cymru — sy'n gwyro mwy na thŵr Pisa hyd yn oed — yw nodwedð anwylaf y castell.





## Castell Coch

Cwyd Castell Coch o goedwigoedd ffawydd hynafol Fforest Fawr fel gweledigaeth o stori ðylwyth teg. Mae'r tu mewn tra addurnedig a ðodrefn ðruðfawr Castell Coch yn ei wneud yn gampwaith disglair o Oes Fictoria. Bu Castell Coch yn ðegan i'r cefnog a'r pwerus ers ðros 700 mlynedd. Ar ôl gwario arian mawr arno, ni threuliodd Gilbert de Clare nac Ardalydd Bute lawer o amser yma. Mae'n ðal i fod yn weledigaeth wych o fyð canoloesol ðychmygus — ac mae'r cyhoedd yn aml yn ei ððewis fel eu hoff adeilad yng Nghymru.



## Castell Rhaglan

I Syr William ap Thomas, neu'r 'marchog glas o Went', y mae'r ðiolch am Dŵr Mawr amffosog 1435 sy'n ðal i ðafllu ei gysgod ðros y gaer-balas nerthol hon. Ei fab, Syr William Herbert, Iarll Penfro, a greodd y porthdy gyða'i 'ryngðyllau' ymledol. Fe'i ðyluniwyd i greu argraff gymaint ag i frawychu. Er gwaethaf garsiwn o 800 o ððynion ac un o warchaeau hiraf y Rhyfel Cartref, cwmpodd i'r lluoedd seneddol ac fe'i ðinistriwyd yn fwriadol. Ymhlith y trysorau yn eu celc oedd ðarn o banel pren Tuduraid, a arððangosir yn falch bellach yn y ganolfan ymwelwyr ar ôl cael ei achub o sieð wartheg yn y 1950au.



## Abaty Tynðryn

Fe'i sefydlwyd yn 1131 gan fynachod Sistersaid, oedd yn hapus i fodloni ar adeiladau pren ar y ðechrau. Codwyd eglwys seml o garreg a chlasau yn ðdiweddarach. Yn 1269 aethpwyd ati i adeiladu eglwys abadol newydd, gan greu un o gampweithiau pensaerniaeth Othig Pryðain. Mae'r ffrynt gorllewinol gwyh gyða'i ffenestr saith lansed, a bwâu esgynnol corff yr eglwys, yn ðal i syfrdanu rhywun. Roedd y mynachod mor ðdiolchgar i'w nodðwr pwerus, Roger Bigod, fel eu bod yn ðal i rannu elusen ar ei ran yn 1535. Ond erbyn hynny roedd Diwygiad y Brenin Harri VIII yn Lloegr wedi hen ðdechrau. Flwyðdyn yn ðdiweddarach yn unig, ðildiodd Tynðryn yn rownd gyntaf ðiððymiad y mynachlogydd — ac o ðipyn i beth ðechreuodd yr abaty mawr ðroi'n adfail.



## Castell Cas-gwent

Nið oes un lle gwell ym Mhryðain i weld sut yr esblygodd cestyll yn raddol i ymðopi ag arfau mwyfwy ðinistriol — ac uchelgeisiau mawredðog eu perchenogion. Am fwy na chwe chanrif, bu Cas-gwent yn gartref i rai o ððynion cyfoethocaf a mwyaf pwerus yr Oesoedd Canol ac Oes y Tudurid. Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn 1067 gan Iarll William fitz Osbern, cyfaill agos i Gwilym Goncwerwr, gan ei wneud yn un o'r cadarnleoedd Normanaid cyntaf yng Nghymru. Fesul un, gadawodd William Marshal (Iarll Penfro), Roger Bigod (Iarll Norfolk) a Charles Somerset (Iarll Caerwrangon) oll eu hól cyn i'r castell ðdirywio ar ôl y Rhyfel Cartref. Cerððwch ðrwy ðri beili i archwilio'r castell carreg hynaf yng Nghymru, a sylwch ar y ðrysau castell hynaf yn Ewrop syðð wedi para 800 mlynedd.

# Ffordd yr Arfordir

## Safleoedd Caðw i ymwelò â nhw



Mae Ffordd yr Arfordir yn rhedeg ar hyd y cyfan o Fae Ceredigion gyda'r môr glas ar y naill ochr a mynyddoedd mawr ar y llall. Mae'n daith 180 milltir/290km o Aberdaron i Dyddewi ac mae yna ðrefi harbwr a lleoedd hanesyddol godidog i'w ðarganfod.



### Castell Cricieth

Mae'n coroni ei bentir creigiog ei hun rhwng ðau ðraeth, ac yn eðrych ðros nifer o olygfeydd rhyfeddol ar ðraws y ðref ac ar hyd cwmpas eang Bae Ceredigion. Does ðim rhyfedd i Turner gael ei ysgogi i'w baentio. Erbyn hynny roedd y castell yn aðfail pictiwrésg — wedi'i ðdinistrio gan un o ðywysogion mwyaf grymus Cymru'r Oesoedd Canol, Owain Glyndŵr. Serch hynny, ðoedd y gaer greigiog hon ððim yn ððigon i wrthsefyll ymosodiad gan Eðward I. Gwnaethpwyd ychydig welliannau gan frenin Lloegr ei hun pan osodwyd peiriant taflu cerrig ar y tŵr gogleddol er mwyn atal ymosodiadau o ðu'r Cymry. Roedd y castell yn ðal yn nwylo Lloegr yn 1404 pan losgwyd y tyrau'n goch gan Owain Glyndŵr. Heb garsiwn i'w ððiogelu, ðaeth y ðref yn un gyfan gwbl Gymreig unwaith eto.



### Castell Harlech

Mae Castell Harlech fel coron ar ben craig serth sy'n eðrych ðros y twyni ymhell islaw gyda chopau garw Eryri yn codi y tu ôl iðdo — ðyma'r lleoliad mwyaf trawiadol ar gyfer unrhyw un o gestyll Eðward I yng ngogledd Cymru. Cwblhawyd Harlech, o'r ððaeaf i'r bylchfuriau, mewn saith mlynedd yn unig o ðan arweiniad y pensaer ðawnus, James o San Siôr. Mae ei ððyluniad 'muriau o fewn muriau' clasurol yn gwneud y mwyaf o amððiffynfeydd naturiol brawychus. Hyd yn oed pan gafodd ei ynysu'n llwyr gan wrthryfel Madog ap Llywelyn, ni ildiodd y castell — ðiolch i'r 'Ffordd o'r Môr'. Roedd y llwybr hwn o 108 o risiau a ððringai'r graig serth yn golygu bod modd bwydo a ðyfrio amððiffynwyr ðan warchae o long. Haws yw trechu Harlech erbyn hyn. Cewch gerðded ar hyd pompren 'arnofiol' anhygoel i mewn i'r castell gwych hwn yn ôl bwriad James y pensaer — am y tro cyntaf mewn 600 mlynedd.





## Llys yr Esgob Tyddewi

Datganodd pab yn y 12fed ganrif fod ðwy ðaith i Dyddewi gyfwerth ag un i Rufain — gan droi'r cyntaf yn ganolfan i bererinion o bob rhan o'r byd gorllewinol. Heiðiodd pobl yn eu miloedd i weld cysegr Dewi Sant yn y gadeirlan newydd. Rhwng 1328 ac 1347, trodd Henry de Gower adeilad nad oedd yn weddus ond i 'weision ac anifeiliaid' yn balas eang. Yma yn y neuadd fawr y byddai'r Esgob Henry yn gweinyddu cyfiawnder, yn cynnal gwleddoedd ac yn croesawu pererinion o fri. Y Diwygiad oedd dechrau'r ðiwedd. A ðweud y gwir, mae'n ðdigon posibl fod William Barlow, Esgob Protestannaidd cyntaf Tyddewi, wedi tynnu'r plwm oddi ar y toeon ei hun er mwyn sbarðuno ðirywiad araf. Ond hyd yn oed yn aðfail, mae'r palas hwn yn lle syfrdanol wrth ymyl y gadeirlan ogoneddus.




## Castell Cilgerran

Safle Castell Cilgerran yw un o'r rhai mwyaf ysblennydd yng Nghymru. Daw ei ðdau ðwr crwn mawr i'r amlwg fry uwchben ceunant ðwfn afon Teifi a nant fyrlymus Plysgog. Mae'n siwr mai castell 'cylchfur' a godwyd yma gyntaf yn 1108 gan yr anturiwr o Norman, Gerald de Windsor. Dros y ganrif ððilynol a rhagor, newidiodd Castell Cilgerran ððwylu lawer o weithiau. Nið oedd gafael y Normaniaid ar y lle yn gadarn tan 1223, pan adeiladodd iarll nwyfus Penfro, William Marshal, 'gastell aððurnedig o forter a cherrig' ar ben y safle gwreiddiol. Er gwaethaf ymdrechion Llywelyn ap Gruffydd ac Owain Glyndwr i'w gipio, ni aeth Castell Cilgerran byth eto i ððwylor Cymry.



# Ffordd y Gogledd

## Safleoedd Cadw i ymweld â nhw



Mae Ffordd y Gogledd yn ðilyn hen lwybr am 75 milltir/120km ar hyd arfordir y gogledd i Ynys Môn. Y cestyll enfawr yma fydd yn ðal eich sylw: **Biwmares, Caernarfon, Harlech** a chaer furiog Conwy. Mae'r clwstwr hwn o gaerau mawreddog o'r 13eg ganrif yn ffurfio Safle Treftadaeth y Byð UNESCO ac ni ðdylid eu colli ar unrhyw ðaith i Gymru.



### Abaty Glyn y Groes

Abaty cwbl Gymreig oedd Abaty Glyn y Groes o'r foment y cafodd ei sefydlu yn 1201 gan y Tywysog Madog ap Gruffyðd a 'mynachod gwynion' yr urðd Sistersaidð. Cyfeiria ei enw Lladin (Valle Crucis) at Golofn Eliseg gerllaw o'r nawfed ganrif, a godwyð er gogoniant Cymro o bennaeth. Mae'n un o'n habatai canoloesol mwyaf cadwedig a mwyaf atmosfferig hyd heddiw, er gwaethaf y niwed a ðdiodddefodd yn ystod rhyfeloedd y Brenin Eðward I a gwrthryfel Owain Glynðwr. Ac fe gredwch chi hynny wrth gael eich cipolwg cyntaf ar flaen gorllewinol mawreddog eglwys yr abaty. Mewn manau eraill ymhlith yr adfeilion rhamantaidd a beintiwýð gan Turner, mae'r cabiðlyð a'i gromen asennog.



### Castell Dinbych

Drama yw swm a sylwedð Castell Dinbych. Croeswch y bont godi i mewn i'r porthðy tri thwr ac fe glywch y porthcwlis yn taranu i lawr, y cadwyni'n clecian a ðwnðwr ceffylau a milwyr yn gorymðeithio. Peidiwch â chael gormod o ofn. Synwryðdion a rhyfeddodau'r ðechnoleg fodern sy'n gyfrifol am hyn. Ond mae'n ffordð rymus i'n hatgoffa bod y gaer gadarn hon, sy'n goron ar y garreg frig greigiog uwchlaw Dyffryn Clwyð, wedi chwarae rhan bwysig yn y rhyfeloedd a fu'n gyfrwng i ffurfio Cymru. Meddiannwyð y castell yn 1282 gan Henry ðe Lacy. Trawsnewidiodð Eðward I y castell yn gyfan gwbl, gan adeiladu caer garreg enfawr gyða muriau tref helaeth ar ben cadarnle Dafyðð, a gosodwyð 'cyrchborth' ðyfeisgar yn ei le — ðrws cyfrinachol ðiogel — fel y gallai unrhyw amððiffynwyr sleifio allan mewn argyfwng.



### Castell Rhuðlan

Hoffai'r Brenin Eðward i'w gestyll fod wedi'u lleoli ar yr arfordir rhag ofn y byðdai ei ymgrych ðdiðrugareðð i ðaro'r Cymry yn mynd i ðrafferthion. Byðdai modð o hyd i gyflenwadau gyrraedd o'r môr. Yn Rhuðlan, sy'n sawl milltir o'r môr, y bwriad yn hytrach oedd ðefnyðdio afon. Ond roedd yna broblem — ðoedd afon ðroellog Clwyð ððim yn hollol yn y lle iawn. Felly ðyma Eðward yn gorfodi cannoedd o gloððwyr ffosyðð i ððyfnhau a ðargyfeirio'i chwrs. Dros saith canrif yn ðdiwedðarach mae Rhuðlan yn ðal i edrych fel castell y bu'n werth symud afon ar ei gyfer. Dechreuwyð adeiladu'r castell yn 1277, a hwn oedd y cyntaf o'r cestyll consentrig chwyldroadol, neu'r cestyll 'muriau o fewn muriau', a gynlluniwyð gan y prif bensaer, James o San Siðr.





## Castell Conwy

Gan sefyll yn ðal uwchben y ðref ers ðros 700 mlynedd, mae murfylchau a thyrau Castell Conwy yn ðal i fod yn ðrawiadol. Dringwch risiau troellog y Safle Treftadaeth y Byð hwn am olygfeyðð eang ac ysbennyðð o Eryri, aber afon Conwy ac arfordir gogleðð Cymru, yna ewch am ðro ar hyd muriau'r ðref sy'n ymestyn mewn cylch 0.8 milltir/1.3km, syðð bron yn ðdi-ðor, o amgylch calon ganoloesol Conwy.



## Castell Caernarfon

Cyðnabyððir Castell Caernarfon ledled y byð fel un o adeiladau mwyaf yr Oesoedd Canol a adeiladwyð gan Eðward I ar lan afon Seiont. Ac, fel cestyll Conwy, Biwmares a Harlech, mae'n Safle Treftadaeth y Byð. Cymerodð y prosiect adeiladu anferthol hwn 47 mlynedd i'w gwblhau a chostiodð £25,000. Cynlluniwyð ei lenfuriau enfawr a'i Borth y Brenin brawychus i wrthsefyll ymosodiadau. Ond roedð y tyrau polygon, yr eryrod cerrig a'r cerrig amryliw yn cyfleu neges fwy cynnil.

Castell o freuddwyðion yw Castell Caernarfon. Chwedl a ðdaeth yn fyw. Ar ôl 700 mlynedd, mae'n ðal i gyffroir ðychymyg yn ei ffordð unigryw ei hun.



## Castell Biwmares

Mae Biwmares ym Môn yn enwog am mai yma mae'r castell gorau erioed na chafodð ei adeiladu. Hwn oedð yr olaf o'r cadarnleoedd brenhinol a grëwyð gan Eðward I yng Nghymru – ac efallai ei gampwaith. Yn sgil ðiffyg arian a thrafferthion ar ðroed yn yr Alban, roedð y gwaith adeiladu wedi chwythu ei blwc erbyn yr 1320au. Ni adeiladwyð porthðy'r ðe na'r chwe thwr mawr yn yr adran fewnol i'r uchðer a fwriadwyð byth. Er hynny, mae'n hawlio ei le haeddiannol ar y llwyfan byð-eang yn rhan o Safle Treftadaeth y Byð Cestyll a Muriau Trefol Eðward I.

Mae'r castell hwn yn arbennig – a hynny oherwyðð maint ei uchelgais a hardðwch ei gyfrannedð. Hwyrach mai castell godidog o anghyflawn Biwmares yw cyflawniad mwyaf pensaer milwrol gorau'r oes.

Cysylltwch â ni yn Caðw i helpu i ðrefnu  
eich taith i'n safleoedd godidog.

caðw.llyw.cymru  
caðwcommercial@gov.wales  
Ffôn: 03000257182